

# Swyddogaeth arfaethedig Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

## Cyflwyniad

### Trosolwg

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) yn manylu ar y camau nesaf yn deillio o'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Yn y Datganiad Ysgrifenedig, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog y byddai Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn cael ei sefydlu oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Ers y cyhoeddiad hwn, mae Grŵp Technegol wedi cyfarfod ac wedi gwneud argymhellion i Weinidogion ynglŷn â chynnwys Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer Gofal a Chymorth. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn y [Datganiad Ysgrifenedig](#) hwn ym mis Rhagfyr 2022.

Ym mis Rhagfyr 2021, llofnododd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y [Cytundeb Cydweithio](#) sy'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cydweithio dros gyfnod o dair blynedd ar bolisïau o fudd cyffredin. Mae un ymrwymiad yn ymwneud yn benodol â sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, sef "sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein huchelgais ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen". Sefydlwyd Grŵp Arbenigol yn gynnar yn 2022 i lunio cyfres o argymhellion ar gyfer camau ymarferol y gellid eu cymryd, a chyhoeddwyd [adroddiad argymhellion](#) y Grŵp Arbenigol ym mis Medi 2022. Mae'r argymhellion yn pwysleisio rôl Swyddfa Genedlaethol yn arwain y sector gofal cymdeithasol. Felly, mae'n hanfodol bod ystyriaethau ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Gan fod gwaith grŵp technegol bach ar y fframwaith comisiynu bellach wedi'i gwblhau, a bod y broses o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar waith, mae modd bwrw ymlaen â'r broses ffurfiol o sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth. Er mwyn helpu i sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, mae Grŵp Llywio wedi'i ffurfio. Mae'r Grŵp Llywio hwn yn gweithredu fel fforwm cynghori, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r rhanddeiliaid canlynol:

- Gweithrediaeth y GIG
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- ADSS Cymru
- CLILC
- Confederasiwn GIG Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Y Bwrdd Gweithredol
- Byrddau Iechyd Lleol y GIG
- Fforwm Gofal Cymru

Rydym yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori hwn ar y Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol i ehangu ymgysylltiad ar ddatblygiad y Swyddfa Genedlaethol.

## Y daith tuag at Swyddfa Genedlaethol

Mae'r [Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth](#), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, yn cyflwyno amrywiaeth o heriau parhaus sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cynnig mesurau ar lefel genedlaethol i ailgydbwyso darpariaeth gwasanaethau:

- symud oddi wrth gymhlethdod, tuag at symleiddio;
- symud oddi wrth brisiau, tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol;
- symud oddi wrth gomisiynu ymatebol, tuag at reoli'r farchnad;
- symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau, tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau;
- symud oddi wrth ffocws sefydliadol, tuag at bartneriaeth fwy effeithiol;
- cydgynhyrchu canlyniadau gwell.

Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, cynigiwyd hefyd y dylid sefydlu Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfrifol am sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i ddatblygu mentrau cenedlaethol i Gymru
- Datrys materion yn ymwneud â gofal cymdeithasol sydd wedi'u huwchgyfeirio i lefel genedlaethol ac na ellir eu datrys ar lefel leol neu ranbarthol
- Endid canolog cenedlaethol yn cadw 'llygad barcud' ar bob elfen o'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Cyfrifol am weledigaeth genedlaethol gyffredin ac am ddarparu arweinyddiaeth gadarn yn unol ag ysbryd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Yn hydref 2022 lluniwyd adroddiad gan y Grŵp Arbenigol - Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud sawl argymhelliad mewn perthynas â sefydlu Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth:

- Trwy un endid Cenedlaethol, gellir gwireddu manteision cysondeb, proffil ac arweinyddiaeth yn llawn, a sicrhau'r cydgysylltu angenrheidiol i wireddu'r weledigaeth gyffredin ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol
- Sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn ymwneud â materion na ellir eu cyflawni ond ar lefel genedlaethol, a datrys unrhyw rwystrau a ganfyddir gan Awdurdodau Lleol a/neu Fyrddau lechyd na allant hwy eu hunain eu datrys
- Y Swyddfa Genedlaethol a ddylai fod y corff gofal cymdeithasol arweiniol y gall sefydliadau droi ato yn ymwneud â materion gofal cymdeithasol pan fydd angen
- Dylai'r Swyddfa Genedlaethol fod â swyddogaeth gydgysylltu ganolog ar lefel genedlaethol yn hytrach na thorri ar draws gwaith asiantaethau gofal cymdeithasol cenedlaethol eraill

Y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

Bydd disgwyl i waith y Swyddfa Genedlaethol ategu gwaith perthnasol ar draws y system, a chyfrannu ato lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys:

- Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio
- Y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru, gan wneud gwaith allweddol i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gydnabod bod y Gymraeg yn perthyn i bawb a nodi pwysigrwydd dewis ac angen iaith wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd sy'n cyd-fynd â'r fframwaith Mwy na Geiriau
- Cymru Iachach.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac yn ei hyrwyddo, gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn hyrwyddo prosesau gweithio gwell gyda phobl, cymunedau a phartneriaid ac yn ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ac felly mae cynaliadwyedd gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth yn hollbwysig. Bwriedir i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod gwaith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth presennol yn gwella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Bydd y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei threialu er mwyn sicrhau cysondeb parhaus â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cyd-fynd â'n cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, [Cymru Iachach](#). Hefyd, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori pedair egwyddor sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, a chydgyhyrchu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni trwy swyddogaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol a rolau a chyfrifoldebau ychwanegol, megis casglu data a gwybodaeth. Y swyddfa fydd yn gwneud y gwaith hwn.

Yn bwysig iawn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r 22 Awdurdod Lleol a'u timau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan Lywodraeth Leol gyfrifoldebau statudol i ddarparu gofal a chymorth digonol er mwyn diwallu

anghenion llesiant pobl. Mae gwreiddiau Gofal Cymdeithasol yn perthyn i'r sector llywodraeth leol, felly mae'r broses o alluogi system gymhleth, gan gynnwys rôl y GIG wrth gomisiynu lefelau sylweddol o ofal a chymorth, er mwyn gweithio ar y cyd, yn ganolog i'n gweledigaeth. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, a rhanddeiliaid trwy ofyn am adborth a mewnbwn i waith y Swyddfa Genedlaethol.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i ddarparu cyfeiriad strategol a chryfhau arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chefnogi gwaith gwella ansawdd er mwyn gwella canlyniadau i bobl. Yn ogystal â chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgysylltu ac yn cydweithio â phobl sy'n derbyn gwasanaethau, ac â'r gweithlu gofal cymdeithasol, er mwyn nodi ac ysgogi gwelliannau.

Bydd y bartneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn hollbwysig hefyd. Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae'n cyflawni swyddogaethau gwella allweddol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ledaenu negeseuon cadarnhaol am weithio ym maes gofal cymdeithasol, ac am weithgarwch gwella sy'n gyson â'i rôl ei hun wrth oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith cenedlaethol, a thrwy gasglu data a gwybodaeth ehangach am y sector.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn galluogi, yn cynghori, yn cefnogi, ac yn gweithredu i gyflawni polisiâu, blaenoriaethau a safonau cenedlaethol a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd rhai o'r amcanion pwysig yn cynnwys hyrwyddo gwasanaethau ataliol, lleihau anghydraddoldebau, a gweithio i sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal a chymorth.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cydweithio â Gweithrediaeth GIG Cymru er mwyn hyrwyddo'r broses o integreiddio gwasanaethau i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, gan ddarparu cyfeiriad cenedlaethol i wella canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol.

Er mwyn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn effro i'r targed sero net ar gyfer y sector cyhoeddus yn 2030, a bydd yn hyrwyddo cynlluniau gweithredu datgarboneiddio a gwerth cymdeithasol er mwyn cyflawni hyn.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori newid trwy hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ er mwyn ymgorffori newidiadau a gwerthoedd ystyrion fel rhan o fywyd Cymru. Bydd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gweithredu fel sbardun i sicrhau arweinyddiaeth amlwg ar bob lefel er mwyn gwireddu ymrwymadau presennol a herio hiliaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau teg, sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan gydnabod croestoriadedd a gwahaniaethau ymysg grwpiau. Mae hawliau LHDTTC+ wedi'u gwreiddio yn ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac maent yn elfen allweddol o'r Cytundeb

Cydweithio â Phlaid Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+, a gafodd ei ddatblygu gyda'r nod o sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTTC+ yn Ewrop, yn nodi camau gofal cymdeithasol a lles, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni rôl allweddol i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gwreiddio ac yn cefnogi'r fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg, Mwy na Geiriau 2022-27. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i dderbyn gofal yn eu hiaith gyntaf.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn darparu cymorth arweiniol canolog er mwyn cynorthwyo arweinyddiaeth yn y system gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd yn hwyluso ac yn cynorthwyo'r sector, ac, os oes angen, yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r sector ar gyfer gwaith gwella a thrawsnewid yn unol â phriodoldeb a safonau cenedlaethol.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ceisio sicrhau arbenigedd a gallu er mwyn helpu i weithredu polisiâu cenedlaethol a sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn dryloyw ac yn eglur. I wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn hwyluso'r gwaith system / dysgu ar y cyd gan gydweithio â phartneriaid lleol / rhanbarthol i rannu arferion gorau wrth barhau i gefnogi arloesedd lleol / rhanbarthol.

Er mwyn cefnogi a sbarduno gwelliannau a thrawsnewidiad, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn alluogwr allweddol i hwyluso newid, gan sicrhau bod pobl yn ganolog i ddatblygiadau a bod y defnydd o dechnoleg yn cael ei wella mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn datblygu'r defnydd o ddata, gan fanteisio ar setiau data presennol a'u glanhau, a bydd yn symud tuag at gyflwyno adnoddau dadansoddeg a modelu uwch. Bydd adnoddau o'r fath yn helpu i ddefnyddio data yn well er mwyn mesur effaith, rhagweld risgiau a gwella dealltwriaeth o sut i reoli'r galw. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn helpu i hyrwyddo dulliau arloesol ac atebion digidol er mwyn cefnogi'r sector gofal cymdeithasol, gan gefnu ar drefn sy'n cynnwys llawer o ddata ond dim digon o wybodaeth.

## Datblygiadau hyd yma

Dechreuodd y daith tuag at Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth gydag [Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth](#). Yn dilyn yr ymgynghoriad, amlinellodd y Dirprwy Weinidog y camau nesaf mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) ym mis Hydref 2021: Rhaglen Ailgydbwyso. Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys tair elfen: y Fframwaith Cenedlaethol, y Swyddfa Genedlaethol, a threfniadau partneriaeth rhanbarthol.

Ar ôl cyflwyno'r Rhaglen Ailgydbwyso, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) ym mis Mehefin 2021 fod Albert Heaney wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Bydd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn darparu

arweinyddiaeth i'r sector oddi mewn a thu allan i Lywodraeth Cymru, gan ddarparu cyngor diduedd ar sail gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn ymwneud â blaenoriaethau ar gyfer newid.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) fod Grŵp Arbenigol wedi'i sefydlu i wneud argymhellion ar ddatblygu a chyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Ym mis Medi 2022 fe gyhoeddodd y Grŵp Arbenigol ei [adroddiad](#).

Yn dilyn ymgysylltiad parhaus rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, sefydlwyd Grŵp Llywio'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth a ddechreuodd gyfarfod ym mis Chwefror 2023. Mae'r Grŵp Llywio yn fforwm cynghori sydd wedi gweithio gyda swyddogion i lunio'r ddogfen ymgynghori hon.

## Gwireddu'r weledigaeth

### Dyluniad

Fel y nodwyd yn [Natganiad Ysgrifenedig](#) y Dirprwy Weinidog ym mis Hydref 2021, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei sefydlu oddi mewn i Lywodraeth Cymru.

Bydd trefniadau darparu adnoddau yn parhau i gael eu harchwilio trwy drafodaethau mewnol, a bydd unrhyw recriwtio angenrheidiol yn digwydd yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ac Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.


Bydd pwyslais y Swyddfa Genedlaethol yn wynebu tuag allan, gan gynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r holl faterion heriol y mae'n eu hwynebu a datblygu ymatebion effeithiol. Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgymryd ag elfennau llai amlwg o waith polisi sy'n gyson â'i gylch gwaith. Byddai cymryd camau cyntaf tuag at ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn enghraifft o hyn.

Rydym yn archwilio manteision gwreiddio swyddogaethau cenedlaethol presennol yn y Swyddfa Genedlaethol, ac mae sgysiau'n parhau yn ymwneud â rôl y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn y dyfodol a'i berthynas â'r Swyddfa Genedlaethol.

Ni ragwelir y bydd angen unrhyw newid i ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y model llywodraethu arfaethedig gan nad yw corff ar wahân yn cael ei sefydlu. Ni fydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgymryd â gweithgarwch sydd y tu allan i gwmpas swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru. Os oes angen unrhyw ddeddfwriaeth ar gyfer swyddogaethau arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno wrth i'r Swyddfa Genedlaethol aeddfedu, bydd hyn yn cael ei archwilio. Bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith wrth inni sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol.

### Swyddogaethau

Mae'r swyddogaethau cychwynnol, lefel uchel y bydd angen i'r Swyddfa Genedlaethol eu harfer yn cael eu gwahanu'n dair rhan: rheoli prosesau goruchwyllo a chydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth; datblygu, gweithredu, a darparu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn barhaus; a chyflawni swyddogaethau'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Bydd pob un o'r swyddogaethau craidd hyn yn cynnwys cyfrifoldebau a / neu elfennau ychwanegol i gyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol. Mae'r diagram isod yn darlunio swyddogaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol.



Mae'r tabl isod yn amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig sy'n cyd-fynd â phob un o swyddogaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol.

<b>Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</b>	<b>Swyddfa'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu arweinyddiaeth genedlaethol strategol i'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a gweithredu fel adnodd canolog i'r sector.</li> <li>• Goruchwyllo gwaith y cyrff gwahanol sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol, a chyflawni swyddogaeth gydgyssylltu arweiniol ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Gweithredu fel man cydgysylltu canolog ar gyfer nodi a lledaenu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd er mwyn sbarduno gwelliant yn y gwasanaeth.</li> <li>• Darparu safbwynt ar gyflawni a gwella, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth.</li> <li>• Dod â'r sector at ei gilydd, gan greu partneriaeth i sicrhau canlyniadau.</li> <li>• Canolbwyntio ar ymarfer proffesiynol a newid cadarnhaol ar gyfer y sector, gan feithrin amgylchedd dysgu a chymorth cynaliadwy.</li> <li>• Goruchwyllo'r sector gofal cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau, gan ddefnyddio data i gynorthwyo'r sector i weithio tuag at atebion.</li> <li>• Gweithredu fel llais cryf ar gyfer pawb yn y sector gofal cymdeithasol.</li> </ul>
	<b>Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth - Goruchwyllo Gwaith Comisiynu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwain y gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</li> <li>• Arwain rhaglen barhaus o ymwybyddiaeth a hyfforddiant i helpu i gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol.</li> <li>• Sefydlu adnodd ar-lein ar ffurf 'pecyn cymorth' i helpu comisiynwyr i gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.</li> <li>• Helpu i reoli'r pecyn cymorth cenedlaethol yn barhaus.</li> <li>• Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Fframwaith Cenedlaethol gan gomisiynwyr.</li> <li>• Cynorthwyo arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad bob 2 flynedd o'r Fframwaith Cenedlaethol, gan helpu i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau, a darparu cyngor ar newidiadau angenrheidiol.</li> <li>• Sicrhau goruchwyliaeth strategol o sefydlogrwydd y farchnad trwy ddull pennu lefel risg, a hysbysu comisiynwyr lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol am fethiant posibl.</li> </ul>



	<p style="text-align: center;"><b>Datblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol</b></p> <p>(Noder bod yr holl swyddogaethau arfaethedig yn cyd-fynd â'r weledigaeth o weithio tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar waith yn syth pan fydd y Swyddfa Genedlaethol yn weithredol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gydag arweinwyr polisi gofal cymdeithasol plant i gynorthwyo gwaith comisiynu yn y maes hwn.</li> <li>• Cefnogi'r nod parhaus o wella Gwasanaethau Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru.</li> <li>• Hwyluso'r gwaith parhaus o ddatblygu diwylliant sy'n galluogi ledled y system gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau dull gweithredu o ansawdd uchel sy'n grymuso cydgyhychu yn y rheng flaen.</li> <li>• Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.</li> <li>• Ysgogi'r gwaith o weithredu a chyflawni polisiau sydd wedi'u llunio i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.</li> <li>• Cefnogi ac arwain newid diwylliant yn ymwneud â Mwy na Geiriau.</li> <li>• Cydgrynhoi a chydgyssylltu swyddogaethau ledled y sector, gan weithredu fel corff arweiniol canolog i'r sector gofal cymdeithasol.</li> <li>• Cydgysylltu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol / gofal cymdeithasol ledled gwasanaethau oedolion a phlant.</li> <li>• Cydgysylltu'r swyddogaeth wella ledled y sector, gan weithio gyda phartneriaid allweddol.</li> <li>• Darparu trosolwg o weithgarwch a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol.</li> <li>• Creu a gwreiddio egwyddorion a safonau cenedlaethol Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.</li> <li>• Cynnal uned ddata sy'n gyfrifol am goladu, dadansoddi a glanhau data, a defnyddio hyn i greu modelau a rhagolygon ar gyfer y sector, gan gynorthwyo arweinwyr polisi i wneud gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.</li> <li>• Arwain yr ymgyrch dros arloesi a gwella yn y sector gofal cymdeithasol.</li> <li>• Yn berthnasol i oedolion a phlant.</li> </ul>
--	---	---

Bydd y Swyddfa Genedlaethol, a sefydlir oddi mewn i Lywodraeth Cymru, yn atebol yn weithredol trwy'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Hefyd, bydd yn atebol yn wleidyddol i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn rhan o strwythurau presennol Llywodraeth Cymru ac yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

Rhaid i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan roi gwerth am arian. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn defnyddio ei hadnoddau dynodedig mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy, yn unol â'i therfynau dynodedig y cytunir arnynt ac â pholisïau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â rheoli, rhagolygon, ac adrodd ariannol.

## Gweithredu

Defnyddir dull graddol o weithredu swyddogaethau ychwanegol wrth i'r Swyddfa Genedlaethol ddatblygu, a bydd Swyddfa Genedlaethol 'graidd' yn weithredol o fis Ebrill 2024.

Er na fydd pob agwedd ar y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei gwireddu ym mis Ebrill 2024, bydd y swyddogaethau craidd yn weithredol a byddant yn dechrau gweithio tuag at y weledigaeth ehangach. Mae'n bosibl y bydd rolau a chyfrifoldebau ychwanegol yn cael eu rhoi i'r Swyddfa Genedlaethol wrth iddi ddatblygu.